Green Key Wales

Green Key is the largest, global, environmental accreditation awarded to thousands of tourism providers in more than 50 countries worldwide

Green Key is an international FEE (Federation of Environmental Education) programme run in Wales by the environmental charity, Keep Wales Tidy, which also manages the prestigious Blue Flag awards.

Green Key allows Welsh businesses to celebrate the positive environmental changes they are implementing and market themselves to an audience that is increasingly aware of their environmental responsibilities.

Businesses throughout the sector can apply for Green Key; this includes B&Bs, hotels, self-catering accommodations, camping sites, conference centres, restaurants and attractions.

How do I apply?

Applying is easy. Just register your business at www.greenkey.org.uk and work through the online form.

The application form covers various aspects of your business; from energy, waste and water, to guest and staff involvement.

As part of your application you'll be asked to provide evidence of your environmental activities and upload some supporting documents. Don't worry though, we don't ask for a lot and you can always save your application and come back to it later. Green Key staff will also be on hand to help.

How is my application assessed?

Once your application form has been submitted, a Green Key assessor will be in touch to arrange a convenient date and time to visit your business.

During their site visit, your assessor will go through your application, explore guest and staff areas, and ask to see any relevant documentation

If there are any areas that may need improvement, we will work with you to help achieve accreditation.

A national jury – made up of independent, industry professionals – ensures that Green Key Wales is working to international standards.

How much does accreditation cost?

As a charity, Keep Wales Tidy has worked hard to ensure Green Key is accessible to all tourism providers.

The cost varies depending on the size of your business, but starts from just £100. This is paid prior to your assessment and then on an annual basis following an update of your application.

Green Key staff will be able to advise on the cost for your business; just email greenkey@keepwalestidy.cymru for more information.

What are the benefits of achieving Green Key accreditation?

There is the opportunity to make great commercial savings. Green Key will provide expert advice and support to help you make the right environmental choices, leading to lower bills without compromising your guest experience.

You'll have access to free promotional materials, allowing you to display the internationally recognised Green Key logo at your business and online

Your business will be promoted at industry trade shows and events attended by Green Key Wales and Green Key International.

You'll be supporting Keep Wales Tidy – the charity working to protect our environment for now and for the future.

For more information, contact greenkey@keepwalestidy.cymru or call 01646 694800

We're Keep Wales Tidy - the charity working across Wales to protect our environment for now and for the future. We take action to make a positive difference. We deliver practical action, environmental education, training, business services and environmental solutions across Wales. We do all of this for one reason - a beautiful Wales that is cared for and that can be enjoyed by everyone.

33-35 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HB 029 2025 6767

keepwalestidy.cymru comms@keepwalestidy.cymru

Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee.
Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

‘Goriad Gwyrdd Cymru

Goriad Gwyrdd yw’r achrediad amgylcheddol, byd-eang mwyaf a ddyfernir i filoedd o ddarparwyr twriastiaeth mewn dros 50 o wledydd yn fyd-eang

Mae Goriad Gwyrdd yn rhaglen FEE (Ffederasiwn Addysg Amgylcheddol) ryngwladol a gynhelir yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru’n Daclus, sydd hefyd yn rheoli gwobrau blaenllaw'r Faner Las.

Mae Goriad Gwyrdd yn galluogi busnesau Cymru i ddathlu newidiadau amgylcheddol cadarnhaol y maent yn eu gweithredu a marchnata eu hunain i gynulleidfa sydd yn gynyddol ymwybodol o’u cyfrifoldebau amgylcheddol.

Gall busnesau ar draws y sector wneud cais am Goriad Gwyrdd; mae hyn yn cynnwys Gwestai Bach, gwestai, llety hunanarlwyo, safleoedd gwersylla, canolfannau cynadledda, bwytai ac atyniadau..

Sut gallaf wneud cais?

Mae’n hawdd gwneud cais. Cofrestrwch eich busnes yn www.greenkey.org.uk ac ewch trwy’r ffurflen ar-lein.

Mae’r ffurflen gais yn cynnwys agweddau amrywiol ar eich busnes; o ynni, gwastraff a dŵr, i gyfranogiad gwesteion a staff.

Fel rhan o’ch cais, gofynnir i chi roi tystiolaeth o’ch gweithgareddau amgylcheddol a lanlwytho rhai dogfennau ategol. Peidiwch â phoeni, nid ydym yn gofyn am lawer a gallwch bob amser arbed eich cais a dod yn ôl atom yn nes ymlaen. Bydd staff Goriad Gwyrdd hefyd wrth law i helpu.

Sut caiff fy nghais ei asesu?

Unwaith bydd eich ffurflen gais wedi cael ei chyflwyno, bydd asesydd Goriad Gwyrdd mewn cysylltiad i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i ymweld â’ch busnes.

Yn ystod eu hymweliad â’r safle, bydd eich asesydd yn mynd trwy eich cais, yn archwilio ardaloedd gwesteion a staff, ac yn gofyn i weld unrhyw ddogfennau perthnasol.

Os oes unrhyw feysydd sydd angen eu gwella, byddwn yn gweithio gyda chi i’ch helpu i gael yr achrediad.

Mae rheithgor cenedlaethol - yn cynnwys gweithwyr proffesiynol, annibynnol y diwydiant - yn sicrhau bod Goriad Gwyrdd Cymru yn gweithio yn unol â safonau rhyngwladol.

Beth yw cost yr achrediad?

Fel elusen, mae Cadwch Gymru’n Daclus wedi gweithio’n galed i sicrhau bod Goriad Gwyrdd yn hygyrch i bob darparwr twristiaeth.

Mae’r gost yn amrywio yn dibynnu ar faint eich busnes, ond mae’n dechrau o £100 yn unig. Telir am hyn cyn eich asesiad ac yna yn flynyddol yn dilyn diweddariad o’ch cais.

Bydd staff Goriad Gwyrdd yn gallu rhoi cyngor ar y gost i’ch busnes; anfonwch e-bost greenkey@keepwalestidy.cymru am fwy o wybodaeth.

Beth yw buddion cael achrediad Goriad Gwyrdd?

Mae cyfle i wneud arbedion masnachol mawr. Bydd Goriad Gwyrdd yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol i’ch helpu i wneud y dewisiadau amgylcheddol cywir, gan arwain at filiau is heb beryglu profiad eich gwesteion.

Bydd gennych fynediad i ddeunydd hyrwyddo am ddim, fydd yn eich galluogi i arddangos logo Goriad Gwyrdd a gydnabyddir yn rhyngwladol yn eich busnes ac ar-lein

Bydd eich busnes yn cael ei hybu yn sioeau masnach y diwydiant a digwyddiadau a fynychir gan Goriad Gwyrdd Cymru a Goriad Gwyrdd Rhyngwladol.

Byddwch yn cefnogi Cadwch Gymru’n Daclus – yr elusen sydd yn gweithio i amddiffyn ein hamgylchedd nawr ac i’r dyfodol.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â greenkey@keepwalestidy.cymru neu 01646 694800

Ni yw Cadwch Gymru’n Daclus – yr elusen sydd yn gweithio ar draws Cymru i ddiogelu ein hamgylchedd nawr ac i’r dyfodol. Rydym yn gweithredu’n ymarferol, yn cyflwyno addysg amgylcheddol, hyfforddiant, gwasanaethau busnes ac atebion amgyylcheddol ar hyd a lled Cymru.Rydym yn gwneud hyn i gyd am un rheswm – ein gweledigaeth yw i ofalu am Gymru a’i gwneud yn hardd er mwyn i bawb allu ei mwynhau.

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB 029 2025 6767

keepwalestidy.cymru comms@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru’n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy